ADRODDIAD I'R: AWDURDOD TÂN	
DYDDIAD: 14fed o Rhagfyr 2009	**CYFEIRNOD:**

TESTUN: ADRODDIAD AR Y CYD GAN Y PRIF SWYDDOG TÂN A'R CYFARWYDDWR ADNODDAU AR Y GOFYNIAD CYLLIDEB AR GYFER 2010/11

CRYNODEB:

AMCANION		GOBLYGIADAU	
Cael ein cwsmeriaid i'n parchu ac ymddiried ynom	/	Rheoli Risg Weithredol	/
Mwy na Gwasanaeth Brys yn unig	/	Lleihau risg yn y gymuned	/
Achub bywydau a diogelu cymunedau	/	Hyfforddi a Datblygu	/
Rheoli o fewn y gyllideb	/	Argyfyngau Sifil	/
Gwella Effeithlonrwydd	/	Cyllid a Chaffael	/
Dyrannu Adnoddau i Flaenoriaethau	/	A.D.	/
Adnoddau eraill	/	TGCh	/
Rheoli Pobl	/	Gwasanaethau Corfforaethol	/
Cynllunio Rheolaeth Integredig	/	Trafnidiaeth	/
Gwaith Partneriaeth	/	Iechyd a Diogelwch	/
Pobl Effeithiol ac Awdurdodedig	/	Adeiladau	/
Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd	/	Iaith Gymraeg	/
Llywodraethu	/	Cyfreithiol	/

SYLWADAU/ARSYLWADAU:

Mae'r gyllideb yn effeithio ar bob un o feysydd gwaith yr awdurdod.

Mae rhwymedigaeth ar yr Awdurdod, yn unol â gofynion Gorchymyn y Cynllun Cyfuno, i gyflwyno amcangyfrif o'i dreuliau net ar gyfer y flwyddyn ganlynol i'w Awdurdodau Unedol cyfansoddol erbyn y 31ain Rhagfyr bob blwyddyn, cyn pennu'r gyllideb derfynol erbyn y 15fed Chwefror cyn y flwyddyn ariannol berthnasol.
Gall hefyd wneud cais i'r Awdurdodau Cyfansoddol am gyfraniadau atodol yn ystod y flwyddyn, yn dilyn ymgynghoriad.

ARGYMHELLION:

Bod y Pwyllgor Adnoddau yn argymell y canlynol i'r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer cymeradwyaeth:-

1) Ar gyfer 2009/10, bod swm y cyfraniad sydd i'w dalu gan yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cael ei ddiwygio i fyny gan £4.57m yn dilyn ymgynghoriad, sef trosglwyddo cronfeydd yn ôl i mewn i gyfrifon yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae hwn yn ofyniad heb fod yn arian parod.

2) Ar gyfer 2010/11, bod y gofyniad cyllideb net o £44,398,689 (+1.73%) yn cael ei gymeradwyo (Atodiad A)

3) Bod y gyllideb o £44,398,689 ar gyfer 2010/11 yn cael ei hariannu'n rhannol gan £580k o'r cronfeydd uchod

4) Y gofynnir i'r Awdurdodau Cyfansoddol am y gweddill o £43,818,689 fel eu cyfraniad ar gyfer blwyddyn 2010/11. (Cynnydd o 1.99% ar eu cyfrif refeniw).

5) Bod y Rhaglen Gyfalaf sydd ynghlwm yn Atodiad B yn cael ei chymeradwyo, gan arwain at y taliadau cyllido cyfalaf y dangosir eu bod yn ychwanegol yn Atodiad A.

6) Bod yr aelodau yn cadarnhau'r rhaglen amnewid cerbydau sydd ynghlwm yn Atodiad D, gan arwain at y taliadau lesio ychwanegol yn Atodiad A.

7) Er y rhagdybiwyd y bydd mwyafrif y cerbydau yn cael eu lesio yng nghynnwys y gyllideb, argymhellir bod y Cyfarwyddwr Adnoddau yn cael ei hawdurdodi i benderfynu ar y dull priodol o gyllido cerbydau (boed hynny'n lesio neu fel arall) adeg caffael.

PAPURAU CEFNDIR A DDEFNYDDIWYD WRTH BARATOI'R ADRODDIAD HWN:

Papurau'r Setliad Dros Dro
Cyllideb Refeniw Gymeradwy 2009/2010
Setliadau cyflog
Cynllun Lleihau Risg 2007-10, Cynllun Gweithredu 2010/11, Strategaeth Gorfforaethol 2010-15
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Datganiad Cyfrifon 2008/09

Awdur(on) yr Adroddiad a'u Swyddi	Richard Smith PRIF SWYDDOG TÂN Liz Aitken CYFARWYDDWR ADNODDAU
Rhif ffôn/Estyniadau	Est 4401 a 4404